

***Beth yw effaith defnydd o iaith bositif yr athro ar ymddygiad
disgyblion sy'n tueddu amharu ar wersi?***

Gallwch ychwanegu'ch targedau o'ch aseiniad diwethaf gan ddefnyddio'r tabl isod. /

Please add your targets from the previous assignment using the table below.

	Targed/Target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn. What I have done in this assignment.
Targed/Target 1	Angen mwy o dystiolaeth o feirniadaeth yn fy ngwaith. Angen bod yn gyson trwy fy ngwaith.	Darllenais amrywiaeth o lenyddiaeth i ehangu fy nealltwriaeth ar y pwnc. Wrth gyfeirio at y llenyddiaeth ceisiais i gyfeirio a chynnwys fy marn i ar y topig er mwyn dangos y ddadl yn fy ngwaith.
Targed/Target 2	Angen dangos ymwybyddiaeth o wrthddadleuon yn fy ngwaith.	Eto, darllenais amrywiaeth o lenyddiaeth o gasglu safbwyntiau gwahanol. Ceisiais i gyfeirio at y safbwyntiau yma yn fy ngwaith i ddangos yr ochr arall o'r dadl.
Targed/Target 3	Parhau i wirio fy ngwaith.	Parhau i ddefnyddio Cysill i wirio fy ngwaith a darllen drosto yn gyson i sicrhau does dim gwallau.

This is the sub header (Ariel 14, Bold, 1.5 line Spacing)

(AssignSubHeader: Styles)

This is the main font (Ariel 11, 1.5 line spacing) To use quotation style select AssignQuote from Home. (AssignBody: Styles)

*This is a quotation text (Ariel 11, 1.5 line spacing, Indented
paragraph on left and right by 2cm) (AssignQuote: Styles)*

Once you type the enter key from the quotation it will automatically switch to the main body text.

*Beth yw effaith defnydd o
iaith bositif yr athro ar
ymddygiad disgyblion sy'n
tueddu amharu ar wersi?*

Nôd yr ymchwil oedd i ddarganfod pa fath o effaith mae defnydd o iaith bositif yr athro yn cael ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddu amharu ar wersi. Roedd gen i ddiddordeb yn y mater yma oherwydd mae disgyblaeth yn holl bwysig o fewn y dosbarth a gall e fod yn anodd i ddarganfod y strategaeth orau sy'n llwyddo i ddelio gyda disgyblion mwy heriol o fewn gwersi. Mae yna lawer o ymchwil sy'n awgrymu bod defnyddio iaith bositif fel strategaeth i ddisgyblu disgyblion yn effeithiol ac felly roeddwn i'n awyddus i brofi'r strategaeth yma. Yn fy ysgol i mae yna ddisgyblion fwy heriol sy'n tueddu amharu ar wersi ac felly roedd e'n awyrgylch perffaith i dreialu'r dechneg hon o ddisgyblu.

Defnyddiais fy nosbarth blwyddyn saith. Penderfynais ddefnyddio'r dosbarth yma yn yr ymchwil am fod disgyblion yno sy'n tueddu amharu ar wersi'n gyson trwy fod yn siaradus neu yn aflonydd o fewn y dosbarth. O ganlyniad i hyn, credaf fod y dosbarth yma yn ddelfrydol wrth brofi defnydd iaith bositif ar ymddygiad sy'n amharu ar y wers. Trafodon ni fel grŵp ymddygiad disgyblion diniwed blwyddyn saith gan ystyried rheini sy'n amharu ar y wers er mwyn cael eu harsylwi yn yr ymchwil ac i weld os yw defnydd o iaith bositif yn effeithiol wrth reoli ymddygiad disgyblion. Felly, ein cwestiwn ymchwil yw

'Beth yw effaith defnydd o iaith bositif yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddu amharu ar wersi?'

Llenyddiaeth

Ceir lawer o ymchwil ar iaith bositif a'r effaith mae'n cael ar ymddygiad disgyblion o fewn y dosbarth. Dengys y deunyddiau ymchwil bod angen deall beth sy'n cael ei ystyried fel ymddygiad sy'n tarfu ar lefelau isel o fewn y dosbarth. Yn ôl Dave Scott (2012), mae tarfu ar wers yn cyfeirio at fod yn hwyr i'r wers, siaradus, heb yr offer cywir, crwydro o gwmpas y dosbarth ac yn aflonydd. Mae'n bwysig i fod yn ymwybodol o'r ffactorau yma er mwyn gallu ceisio eu rheoli ac i fesur effaith iaith bositif yr athro ar ymddygiad disgyblion. Er hyn, yn ôl adroddiad Ofsted (2014), mae 1 allan o 5 athrawon yn anwybyddu tarddiad ar lefelau isel yn y dosbarth trwy barhau gyda'r wers. Caiff hyn ei gefnogi gan John Dabell (2018). Nodir bod rhai ysgolion yn anwybyddu ymddygiad disgybl sy'n tarfu ar lefel isel o fewn y dosbarth (Dabell, 2018). Mae'n amlwg nad yw hyn yn strategaeth lwyddiannus i geisio datrys ymddygiad disgybl sy'n tarfu ar wersi. Dynodir Dabell (2018), bod rhai athrawon yn cymryd deg munud o'r wers yn ceisio delio gyda tharfiad ar lefel isel ac i ddisgyblu disgyblion. Mae'n bwysig deall ymddygiad disgybl er mwyn deall y ffordd orau o ddelio gyda'i ymddygiad ac i gael effaith bositif arnynt. Yn ôl yr ymchwil, mae'n bwysig i ffurfio amodau sy'n hybu ymddygiad positif (Education Support, 2019). Mae'n hanfodol i greu awyrgylch dysgu positif lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus ac eisiau bihafio a dysgu. Cefnogir y syniad yma gan Amelia Harper (2017) lle nodir, wrth ddefnyddio iaith bositif yn y dosbarth, mae'n helpu i greu dosbarth cefnogol lle mae disgyblion yn tyfu ac yn datblygu gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae'n hanfodol i athrawon annog a dylanwadu ar ddisgyblion i gyrraedd eu nodau ac i lwyddo (Harper, 2017). Roedd yr ymchwil yma yn ein harwain at ein ymchwil trwy awgrymu bod creu dosbarth positif ac amodau dysgu dymunol, yn hybu ymddygiad da a

disgyblion sy'n awyddus i ddysgu. Mae iaith bositif yn strategaeth i gyrraedd y nodau yma a chreu nawws pleserus.

Wrth ddefnyddio iaith bositif yn y dosbarth mae angen osgoi datganiadau megis 'paid' a chanolbwyntio ar ddatganiadau mwy positif er enghraifft, 'diolch am ganolbwyntio a thawelu'. Caiff hyn ei gefnogi gan Harper (2017) a Rogers (2011). Yn ogystal, dynodir Rogers (2011), bod ein hiaith yn hollol bwysig wrth sicrhau effaith ar ymddygiad disgybl ond hefyd, mae iaith ein corff a nawws ein llais yn dylanwadu ar ymddygiad disgybl. Esbonir Alyssa Nucaro (2017), wrth fod yn ymwybodol o nawws ein llais a dangos bod gennym ffydd yn y disgyblion, mae'n dangos ein bod yn credu'n gryf y bydden nhw'n llwyddo ac yn cyrraedd eu targedau. Mae hefyd yn dangos i'r disgyblion eich bod yn ymwybodol eu bod nhw'n cyd-weithio gyda'r ysgol trwy ddilyn y rheolau (Nucaro, 2017). Enghraifft y defnyddiwyd Nucaro (2017) oedd, os mae disgybl yn rhedeg yn y coridor byddet yn dweud 'dwi'n gwybod bod dy fod di'n cofio'r rheolau, a rydw i'n gwerthfawrogi dy fod di'n ceisio bod yn ddiogel.' Mae hyn yn enghraifft da o iaith bositif ac yn osgoi gweiddi a nawws negyddol. Cafodd hyn ddylanwad ar ein hymchwil trwy'n cael ni i feddwl bod ein presenoldeb o fewn y dosbarth hefyd yn mynd i gael effaith ar ymddygiad y disgyblion, yn ogystal â'r canlyniadau. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod defnyddio iaith bositif hefyd yn gwella canfyddiad y disgyblion o amgylchedd yr ysgol ac yn y gobaith bydd yn gwella ymddygiad disgyblion yn yr ysgol (Education Support, 2019). Mae hwn yn adlewyrchu theori Skinner. Mae iaith bositif yn fath o atgyfnerthiad positif. Wrth ddefnyddio atgyfnerthiad positif, mae'n darparu stimilws fydd yn hybu ymddygiad da eto yn y dyfodol (bhwcare, 2019). Darganfyddodd Skinner bod atgyfnerthiad positif yn gweithio wrth ddefnyddio llygod mawr (McLoed, 2018). Dysgodd y llygod wrth dynnu'r lifer, y bydd yn derbyn bwyd (McLeod, 2018). Esbonnir bod ymddygiad yn cael ei ddysgu trwy bositifrwydd (gwobrau) a chosb (Pound, 2006). Er hyn, mae Skinner yn canolbwyntio mwy ar wobrau a chosb, mae hyn yn berthnasol wrth ddarganfod defnydd o iaith bositif ar ymddygiad disgybl sy'n tueddu tarddu ar wersi oherwydd, y gobaith fydd wrth ganmol disgyblion a defnyddio iaith bositif ac osgoi geirfa negyddol, bydd disgyblion yn newid eu hymddygiad ac yn osgoi tarfu ar y wers er mwyn derbyn yr un ymateb positif gan yr athro.

Wrth ymchwilio mewn i effaith iaith bositif gan yr athro ar ymddygid disgyblion sy'n tueddu amharu ar y wers, mae'r ymchwilwyr yn cyd-fynd gyda'i gilydd. Mae'r ymchwilwyr uchod yn defnyddio dyfyniad tebyg wrth gyfeirio at iaith bositif a'r pwysigrwydd o ddefnyddio iaith bositif o fewn y dosbarth. Mae nhw hefyd yn ystyried tarfiad ar lefelau isel o fewn y dosbarth yn debyg yn y ffordd mae nhw'n dyfynnu a'r pwysigrwydd o adnabod yr ymddygiad yma a sut i ddelio gyda disgyblion sy'n amharu ar y wers. Mae'r llenyddiaeth yma yn ddefnyddiol er mwyn cwblhau'r ymchwil oherwydd mae'n gosod cyd-destun i ni, yn ogystal a chredoau ynglŷn â'r strategaeth o ddefnyddio iaith bositif wrth ddelio gyda disgyblion aflonydd.

Astudiaeth Wers

Y fethodoleg defnyddiais oedd ymchwil Astudiaeth Wers. Astudiaeth Wers yw i arsylwi gwers cyfoedion ac adfyfrio ar ddiwedd y wers. Cyflwynodd Peter Dudley yr astudiaeth ym Mhrydain yn 2001 (Dudley, 2014) Mae'r Astudiaeth Wers yn

boblogaidd ac yn llwyddiannus yn Tsiena ac felly roedd Dudley yn awyddus i dreialu y dechneg ym Mhrydain. Pwrpas Astudiaeth Wers yw i roi cyfle i athrawon i agor eu llygaid yn fwy ac i ddysgu o'i gilydd am dechnegau newydd y gallent ddefnyddio o fewn y dosbarth (Dudley, 2014). Mae'n gyfle i athrawon arbrofi gyda strategaethau a thechnegau newydd er mwyn sicrhau safon addysgu uchel a llwyddiant disgyblion (Dudley, 2014). Cyfeirir Dudley (2014) at y cysyniad 'black box' wrth esbonio bod Astudiaeth Wers yn cynnig safbwynt gwahanol i athrawon, ac ystyried y berthynas rhwng addysgu a dysgu. Felly, mae Astudiaeth wers yn ddefnyddiol i ni gyflawni ein hymchwiliad trwy fedru weld effaith iaith bositif yr athro ar ymddygiad y disgyblion mewn amodau gwahanol.

Ynghyd â defnyddio Astudiaeth Wers, defnyddion ni'r dull arsylwi. Doedden ni ddim yn cyfranogi yn y wersi lle roedden ni'n arsylwi gwers. Mae arsylwi yn cynnwys dadansoddi sefyllfa trwy ystyried y ffenomen a defnyddio ein persbectif i ddod at gasgliadau i'r cwestiwn, er enghraifft, ydy disgyblion yn newid eu hymddygiad mewn ffordd bositif ar ôl cael eu canmo? (Burton a Bartlett, 2009)

Wrth arsylwi gwers, roedd gennym gwestiynau i ddilyn fel cymorth ac i sicrhau ein bod yn ffocysu ar ymddygiad y disgybl yn ymateb i iaith bositif yr athro. Gwelir yn yr atodiad y cwestiynau dilynol ni wrth arsylwi'r gwersi. Er hyn, mae angen cadw mewn cof, efallai bod cwestiynau'n ein rhwystro, hynny yw, efallai roedden ni'n colli rhai pethau oherwydd roedden ni'n ffocysu ar y cwestiynau (Hopkins, 2008). Defnyddion ni raddfa wrth arsylwi ymddygiad disgyblion ac iaith yr athro. Y raddfa defnyddion ni oedd 1 i 5, lle mae 1 yn rhagorol a 5 yn wael iawn. Roedd hwn yn ffordd eithaf syml i ni ddilyn wrth arsylwi'r wers yn ogystal â'i dadansoddi ar ddiwedd yr arsylwad. Wrth ddefnyddio data meintiol, mae'n haws gweld patrymau ac felly yn haws i'w dadansoddi. Yn ogystal, mae graddfa meintiol yn lleihau'r risg o or-cynrychiol neu ddim yn cynrychioli'r cyfranogwyr yn yr ymchwiliad (Wood a Smith, 2016). Mae hyn yn sicrhau bod yna lai o duedd wrth ddadansoddi'r data.

Ar ôl arsylwi'r gwersi, wnaethon ni gyfwrdd â grŵp o ddisgyblion i gasglu ac ehangu ar y data casglon ni o'r arsylwad. Dewison ni dri disgybl o bob tair gwers, felly wnaethon ni gyfwrdd â naw disgybl. Dewison ni ddisgyblion penodol i gyfwrdd trwy ystyried pa ddisgyblion oedd fel arfer yn amharu ar wersi ar lefel isel. Penderfynon ni bod blwyddyn saith yn dda i ddefnyddio oherwydd ceir disgyblion sydd fel arfer yn aflonydd o fewn gwersi ac hefyd, maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn awyddus i greu argraff dda ar yr athro. Yn debyg i'r cwestiynau ffurfion ni ar gyfer yr arsylwad, ffurfion ni gwestiynau ar gyfer cyfwrdd â thri disgybl. Gellir gweld y cwestiynau yma yn yr atodiadau (e.e atodiad 3). Roedd hwn yn ffordd addas er mwyn casglu credoau'r disgyblion yn ogystal â bod yn ddefnyddiol wrth weld os yw eu hatebion yn cyd-fynd â'r astudiaeth wers. Defnyddion ni gyfweiliad strwythedig gyda set o gwestiynau cafodd eu ffurfio cyn y cyfweiliad (Burton a Bartlett, 2009). Wrth gyfwrdd â grŵp o dair disgybl, roedd yn eu hannog i gynorthwyo'i gilydd a chreu trafodaeth fanwl (Hopkins, 2008). Er hyn, roedd angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r dechneg yma wrth gasglu data oherwydd, roedd yn hawdd i'r ymchwilydd ddylanwadu ar atebion y disgyblion trwy efallai annog disgyblion i ehangu ar atebion penodol neu i roi ateb sbesiffig (Burton a Bartlett, 2009). Ar y llaw

arall, roedd cyfweld yn ddull lle gallwch addasu sefyllfaoedd gwahanol yn ogystal â gallu godi ar unrhyw cliwiau yn eu hymddygiad.

Ynghyd â'r technegau yma i gyflawni'n hymchwil, wnaethon ni hefyd defnyddio Model Pedwar Lens o Adlewyrchiad. Mae'r model yn cynnig y cyfle i ni adfyfyrio'r ymchwil yn ôl safbwynt hunan, disgyblion, llenyddiaeth a chyfoedion. Mae hyn yn ddull da er mwyn gallu gwerthuso'r ymchwil trwy safbwyntiau gwahanol. Mae adfyfyrio yn holl bwysig i'w gynnal ar ôl ymchwil oherwydd mae'n rhoi cyfle i ni ystyried os welsom unrhyw effaith ar ddefnydd o iaith bositif yr athro ar ymddygiad disgybl sy'n tueddu tarfu ar wersi. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni werthuso'r ymchwil, os oes unrhyw beth bydden ni'n gwneud yn wahanol tro nesaf ac os llwyddon ni i ddod at gasgliad cadarn. Mae hunan asesiad yn bwysig fel athrawes er mwyn gallu dysgu o'ch gweithredoedd a sicrhau'r gorau ar gyfer addysgu disgyblion yn llwyddiannus (Miller, 2010). Yn ogystal, wrth ystyried ochr y disgyblion, mae e hefyd yn hybu arferion addysgu da oherwydd, rydych yn dysgu sut mae disgyblion yn dysgu ac yn sicrhau i greu amodau addas a pherthnasol ar gyfer pob disgybl i lwyddo (Miller, 2010). Mae'n bwysig i wrando ar y dysgwr er mwyn gallu bod yn athrawes effeithiol.

Mae'r holl ddulliau yma o gasglu gwybodaeth yn arfer da i gwblhau ymchwil manwl a llwyddiannus trwy gynnal Astudiaeth Wers, arsylwi gwersi a gallu cyfweld â disgyblion, er mwyn ffurfio casgliad yn ogystal ag adfyfyrio ar y gwaith a'r casgliadau.

Ystyriaethau moesegol.

Wrth gynnal unrhyw ymchwil mae yna broblemau moesegol yn codi ac mae'n bwysig i allu delio gyda rhain yn effeithiol. Wrth wneud gwaith ymchwil mewn dosbarth mae yna ystyriaethau moesegol yn codi sydd angen cael eu hystyried. Cyn i ni allu cynnal yr astudiaeth roedd angen i ni dderbyn caniatâd gan y rhieni er mwyn gallu cynnwys y disgyblion yn yr ymchwil. Heb y llythyrau doedd dim hawl i ni gynnwys y disgyblion yn yr astudiaeth. Yn ogystal, ar ôl derbyn y llythyrau roedd angen eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi ei gloi. Ynghyd â hyn, mae'n bwysig i fod yn ofalus wrth ddewis unigolion i fod yn rhan o'r cyfweiliad oherwydd mae angen osgoi effeithio ar hunan-barch y disgyblion. Wnes i osgoi hyn trwy osgoi dweud wrth weddill y disgyblion nad oeddent yn rhan o'r cyfweiliad. Yn ogystal, roedd angen cadw yn broffesiynol a chadw at ganllawiau BERA, canllawiau y brifysgol ac EWC, i osgoi cyhuddo gwneuthuriad a ffugio data. Mae angen bod yn ofalus wrth gynnal unrhyw ymchwil a sicrhau eich bod yn datrys unrhyw broblemau gall codi.

Canlyniadau

Yn y wers gyntaf, llwyddodd yr athro 1 ddefnyddio iaith bositif. Roedd yr athrawes yn cyfarch pob disgybl ar ddechrau'r wers er mwyn creu naws positif. Yn ogystal, llwyddodd i ddefnyddio iaith bositif wrth fynnu sylw. Enghraifft o ddefnyddio iaith bositif yr athro oedd 'there is no need to discuss...'. Defnyddiodd y frawddeg yma i fynnu sylw'r disgyblion ar ôl gosod y dasg iddynt. Hefyd, wrth i ddisgyblion cynnig atebion a rheini'n anghywir, dywedodd 'I like you went there, however....' Mae hyn yn enghraifft da o iaith bositif lle mae athro 1 yn canmol ymdrech y disgybl am feddwl a chynnig ateb ond trwy hefyd awgrymu nad oedd yr ateb yn gywir, na chwaith yr ateb

roedd yr athro'n disgwyl. Yn gyffredinol, roedd defnydd iaith bositif yr athrawes yn dda trwy gydol y wers.

Wrth edrych ar sylwadau a chanlyniadau disgybl A, roedd y disgybl ychydig yn siaradus ond ddim yn tarfu'n ddifrifol ar y wers. Roedd yr athrawes yn dda, yn rhoi clod i'r disgybl ac roedd y disgybl yn ymateb yn dda i'r iaith bositif a nid oedd yn parhau i darfu ar y wers. Er hyn, wrth gyfweld â'r disgybl, nid oedd disgybl A yn ymwybodol o beth oedd iaith bositif. Ond, roedd disgybl A yn hoff o gael ei chanmol oherwydd roedd e'n gwneud i'r disgybl deimlo'n dda am ei hun ac am ei gwaith yn y dosbarth. Yn ogystal, rhannodd y disgybl eu bod nhw'n hoff o gael eu canmol trwy gael gwobr – enghraifft o hwn yn yr ysgol yw cynllun GYTS (rhaglen lle mae nhw'n hybu defnydd o'r Gymraeg). Os yw'r y dosbarth yn siarad Cymraeg bydden nhw derbyn cinio cynnar. Mae hwn yn hybu ymddygiad positif ac yn eithaf effeithiol gyda'r disgyblion. Felly, wrth ddadansoddi sylwadau disgybl A, mae iaith bositif yn eithaf effeithiol ond mae canmoliaeth yn llwyddiannus iawn.

Roedd disgybl B yn aflonydd trwy gydol y wers. Roedd y disgybl yn cael trafferth i ganolbwyntio yn y wers trwy chwarae gyda phen ac yn ffeindio fe'n anodd wrth aros i gael ei ddewis i gynnig ateb i'r athro. Roedd y disgybl yn ymateb yn dda i iaith bositif ac roedd e'n mynegi mewn ffordd positif ar ôl cael ei ganmol. Er hyn, roedd e'n parhau i fod yn aflonydd yn y wers. Yn y cyfweiliad, rhannodd bod iaith bositif yn eu hannog nhw i wneud mwy o waith, ond nid trwy'r amser. Awgrymwyd, bod hyn yn ymwneud ag ymddygiad yr unigolyn. Disgrifiodd disgybl B iaith bositif fel pan mae'r athro yn fod yn neis ac yn gyfeillgar. Yn ogystal, esboniodd bod cyfarch y disgyblion yn cael effaith bositif er enghraifft esboniodd, os nad yw'r athro yn cyfarch y disgyblion caiff ei ystyried yn ddiog a nid yw e'n creu awyrgylch positif.

Roedd disgybl C yn eithaf tawel a nid oedd yn awyddus i weithio. Roedd canlyniadau o astudiaeth wers disgybl C yn debyg i ganlyniadau disgybl B. Roedd disgybl C yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn parhau i ymddwyn yn dda ar ôl derbyn clod. Esboniodd y disgybl bod iaith bositif yn gwneud iddynt deimlo nad oes angen iddynt bryderu am y wers a bod yr athro yn mwynhau'u haddysgu nhw. Hefyd, wrth dderbyn canmoliaeth, maent yn awyddus i gyflawni gwaith er mwyn derbyn mwy o glod. Nid yw'r disgybl yn hoff o'r athro yn gweiddi, mae'n gwneud i'r disgybl deimlo'n ofnus ac yn ansicr o beth i ddisgwyl. Mae'n amlwg bod disgybl C yn hoffi iaith bositif ac mae'n dileu unrhyw bryderon.

Dysgais o'r wers bod iaith bositif yn cael effaith wahanol ar bob disgybl. Mae ymddygiad personol yn chwarae rôl hanfodol ar ymateb i iaith bositif yr athro. Fel rhannodd un disgybl, mae iaith bositif yn gweithio, ond mae'n dibynnu ar hwyl personol y disgybl. Felly, i wella'r wers gallwn ni ymchwilio'n fwy mewn i strategaethau o ddefnyddio iaith bositif ar bob math o ymddygiad.

Yn anffodus methais arsylwi gwers 2 oherwydd amgylchiadau amgen. Ond wrth arsylwi sylwadau cyd-ymchwilwyr, roedd athro 2 yn defnyddio iaith bositif trwy gydol y wers ac yn osgoi gweiddi. Hefyd, roedd athro 2 yn canmol y disgyblion ac yn rhoi clod i ddisgyblion am ymddygiad da ac am fod yn weithgar. Yn ogystal, roedd y disgyblion yn awyddus i weithio a chyfrannu atebion i drafodaethau'r dosbarth.

Mae canlyniadau a sylwadau disgybl F a H yn eithaf tebyg. Roedd y ddau yn ymateb yn dda i iaith bositif yr athro ac roedden nhw'n mynegi mewn ffordd bositif o ganlyniad i gael eu canmol. Yn ogystal, roedden nhw'n parhau i ymddwyn yn dda ar ôl derbyn clod. Roedd eu diffiniadau o iaith bositif yn eithaf tebyg. Disgrifio'n nhw fod iaith bositif yn eu hannog i gyflawni gwaith a'i fod yn gwneud iddyn nhw deimlo'n well. Mae defnydd o iaith bositif yn cyfrannu at adeiladu perthynas da gyda'r athro ac yn cyfleu parch gan yr athro tuag atyn nhw. Disgrifir disgybl H bod canmoliaeth a chyfarch yn rhoi cymhelliant iddyn nhw i weithio ac i lwyddo yn wers. Roedd y ddau ddisgybl yn anghytuno gydag athro yn codi llais, ac wrth i athro weiddi mae'n gwneud i rai disgyblion i deimlo'n fwy gwrthryfelgar a cholli cymhelliant i weithio a llwyddo yn y wers. Hefyd, mae disgyblion F a H yn cytuno gyda disgybl G ynglŷn â bod gwobrwyo yn ffordd well o gael eu canmol a bod rhain yn annog disgyblion i weithio'n fwy.

Wrth ddadansoddi canlyniadau gwrs 2, mae'r gwelwyd bod disgyblion yn hoff o iaith bositif a bod gwell ganddynt iaith bositif yn lle athro yn gweiddi, credant fod iaith bositif yn fwy effeithiol. Ynghyd â hyn, mae'r syniad bod ymddygiad personol disgyblion yn dylanwadu ar ffordd maent yn ymateb i iaith bositif yr athro yn gryf.

Roedd disgybl G yn ymateb yn dda i iaith bositif yr athro. Yn ystod y cyfweiliad esboniodd disgybl G, bod defnydd iaith bositif yr athro yn gwneud iddi deimlo'n well am y wers a gwneud iddi deimlo'n hapusach i fod yn y dosbarth. Roedd disgybl G yn dawel yn y wers ac felly nid oedd hi'n tarfu ar y wers y tro yma. Esboniodd y disgybl bod clod yn gymorth i ddisgyblion i wella ymddygiad trwy helpu hyder, ond, credodd y disgybl y dylent dderbyn gwobr am ymddygiad da. Roedd gan y disgybl llawer i ddweud am athro sy'n gweiddi. Dywedodd dylai athrawon cael trafodaeth gyda'r dosbarth os ydynt yn cam-bihafio yn hytrach na gweiddi, a'i fod yn anoddach i ddisgyblion i ffurfio perthynas gyda'r athro os yw'n gweiddi'n gyson.

Yn ystod gwrs 3, llwyddais i ddefnyddio iaith bositif yn y wers er mwyn rheoli disgyblaeth ac annog y disgyblion i gyflawni nod y wers. Roeddwn i'n osgoi gweiddi er mwyn denu sylw'r disgyblion ac yn crwydro yn gyson er mwyn sicrhau bod pawb a'r dasg, a bod pawb yn deall. Roedd y tri disgybl (X, Y, Z) yn mwynhau'r tasgau a roedden nhw'n awyddus i gynnig atebion a chymryd rhan mewn trafodaethau'r dosbarth. Ymatebon nhw yn eithaf da i iaith bositif ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn awyddus i gael eu canmol eto ar ôl cael eu canmol unwaith yn y wers.

Wrth werthuso'r sylwadau o'r ymddygiad disgybl X gallwch weld ei fod yn ymateb yn eithaf da i'r iaith bositif. Ar ôl clywed iaith bositif, roedd e'n fwy amlwg bod y disgybl yn mynegi mewn ffordd mwy positif. Roedd disgybl X yn hoffi iaith bositif ac esboniodd pan fo athro'n codi llais yn y wers, mae'n achosi iddo deimlo'n grac. Yn hytrach nag athro yn codi llais, mae well gan ddisgybl X bod yr athro yn rhoi rhybudd yn hytrach na cholli'i dymer yn syth. Yn ogystal, mynegodd bod well ganddo athro yn defnyddio iaith bositif trwy ffocysu ar ymddygiad da a gosod targedau er mwyn i ddisgyblion datblygu, yn hytrach na ffocysu ar y gwendidau yn unig. Hefyd, esboniodd wrth glywed iaith bositif a chael ei gyfarch gan yr athro, bod 'na deimlad o gael eu parchu a'u bod nhw'n awyddus i weithio am ei bod yn teimlo eu bod yn mynd i gael hwyl yn y wers. mae'r sylwadau gan athro 1 a 2 hefyd yn adlewyrchu

teimladau y disgybl. Nodir, bod y disgybl yn ymateb yn rhagorol i fy iaith bositif a pharheuron nhw i ymddwyn yn dda ar ôl derbyn clod ac yn ceisio am glod yn ystod y wers. Mae'r sylwadau yma yn awgrymu bod iaith bositif yr athro yn cael effaith bositif ar ymddygiad disgybl sy'n tueddu tarfu ar wers.

Gall y wers gwella wrth i mi addasu fy strategaethau ynglŷn ag esbonio tasgau er enghraifft ailadrodd y dasg, wrth ddosbarthu y dasg er mwyn rheoli sŵn y dosbarth. Hefyd, byddaf yn ehangu ar y dasg er mwyn sicrhau bod pob disgybl wastad a gwaith os ydynt yn gorffen yn gynt na phawb arall. Bydd hyn yn sicrhau bod neb yn ddiflas ac yn methu canolbwyntio a tharfu ar y wers. Bydd hyn hefyd yn rheoli lefel y sŵn ac ymddygiad disgyblion mewn ffordd positif.

Wrth gynnal yr Astudiaeth Wers yma, dysgais nifer o bethau am addysgu. Dysgais gallaf wella fy addysgu trwy barhau i ddatblygu sgiliau cyfathrebu gyda disgyblion ac hefyd gyda staff. Bydd hwn yn gymorth wrth adeiladu perthnasoedd gyda'r disgyblion a staff er mwyn sicrhau y gorau ar gyfer y disgyblion ac i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu targedau ac yn llwyddo. Yn ogystal, wrth gyfathrebu'n bositif gyda'r staff, mae'n creu nawws pleserus a gweithgar a'r teimlad eich bod yn rhan o dîm. Hefyd, dysgais y pwysigrwydd o greu awyrgylch positif er mwyn annog pob disgybl i weithio ac i deimlo'n gyfforddus ac hyderus o fewn y dosbarth. Yn ogystal â hyn, dysgais bod defnyddio iaith bositif hefyd yn bwysig yng nghynlluniau gwersi oherwydd, mae'n cyfleu pa fath o wers fydd hi a'r mathau o eirfa bydd yn cael ei defnyddio o fewn y wers.

Canfyddiadau

Darganfyddais nifer o bethau diddorol am effaith iaith bositif yr athro ar ddisgyblion sy'n tueddu tarfu ar wersi. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau ar sylwadau y tair wers a'r naw disgybl, gallwn ni ddod at gasgliad bod disgyblion yn hoff o iaith bositif, ond fel athro mae'n anodd i weld os yw'n hollol effeithiol fel strategaeth i reoli ymddygiad disgyblion.

Nododd bron pob disgybl bod well ganddynt bod yr athro yn defnyddio iaith bositif i reoli'r dosbarth yn hytrach na gweiddi. Esbonion nhw bod athro sy'n gweiddi yn creu nawws negatif ac anghyfforddus i bawb yn y dosbarth. Caiff hyn ei cefnogi gan ymchwil, lle esbonnir bod gweiddi ar ddisgybl yn y dosbarth yn tanseilio addysg disgyblion trwy'u rhwystro nhw rhag weithio o ganlyniad iddyn nhw deimlo'n ofn ac anghyfforddus (Paton, 2010). Felly, mae'n deg i nodi nad yw gweiddi a chodi llais yn strategaeth effeithiol i reoli ymddygiad disgyblion sy'n tarfu ar wersi. Mae sylwadau gan ddisgyblion yn cyd-fynd gyda'r ymchwil. Mae hwn yn ddefnyddiol i wybod ar gyfer addysgu oherwydd, mae'n bwysig i fod yn ymwybodol o deimladau disgyblion er mwyn gallu sicrhau y gorau ar gyfer eu lles a sicrhau bod nhw'n llwyddo yn eu gwersi (Dweck, 2017). Mae'n deg i nodi bod sylwadau disgyblion ynglŷn â defnydd iaith bositif yr athro yn cyd-fynd gyda'r llenyddiaeth.

Ynghyd â hyn, mae canlyniadau'r astudiaethau gwersi yn awgrymu bod disgyblion hefyd yn ffafrio canmoliaeth. Mae canmoliaeth yn ffactor bwysig i annog ymddygiad da a gweithgar gan ddisgyblion oherwydd, wrth ganmol disgyblion mae'n dileu unrhyw gwrthdaro gan y disgyblion yn y wers (Joachim, 2018). Cafodd hyn ei

adlewyrchu yn yr astudiaeth. Gan gynnwys y canmolïaeth mae'r canlyniadau hefyd yn cefnogi darganfyddiadau Edward Thorndike. Darganfyddodd Thorndike bod bodau dynol yn fwy tebygol o ailadrodd ymddygiad os oedd yn arwain at ganlyniadau positif (Pound, 2006). Cafodd hyn ei ddangos yng nghanlyniadau'r astudiaeth. Gwelir, wrth i ddisgybl derbyn canmolïaeth am ei gwaith ac ymddygiad, maent yn fwy tebygol o ailadrodd yr un ymddygiad er mwyn derbyn yr un ymateb gan yr athro.

Er y gwelsom ganlyniadau yn cefnogi rhan fwyaf o'r llenyddiaeth, fel athro nid yw iaith bositif wastad yn strategaeth lwyddiannus i reoli ymddygiad disgyblion sy'n tuedd tarfu ar wersi. Mae'n amlwg bod effaith o ddefnydd iaith bositif yr athro yn dibynnu ar yr unigolyn ac ymddygiad personol y disgyblion. Mae'n strategaeth anodd i fagu wrth reoli dosbarth, ond credaf gydag ymarfer ac adeiladu perthynas gyda disgyblion, gall y dull fod yn un llwyddiannus.

Casgliad

Credaf aeth yr ymchwil yn dda ac yn llwyddiannus. Roedd y dulliau defnyddion ni yn llwyddiannus yn ogystal a'n canfyddiadau. Mae'r bennod yma yn ystyried y cryfderau a gwendidau ein hymchwïl gan gynnwys y dulliau defnyddion ni i gasglu'r wybodaeth a dod at gasgliadau.

Roedd astudiaeth wers yn dull effeithiol o ddarganfod effaith iaith bositif yr athro ar ymddygiad disgyblion sy'n tueddu tarfu ar wersi. Mae Astudiaeth Wers o fudd i athrawon oherwydd mae'n cyfrannu at ddatblygiad athrawon trwy arddangos strategaethau gwahanol o addysgu, er mwyn gallu sicrhau llwyddiant disgyblion a rheoli disgyblaeth yn y dosbarth (Coenders & Verhoef, 2018). Roedd y dull yma yn gyfle i arsylwi athrawon eraill a chael persbectif allanol o ddefnydd iaith bositif heb gael unrhyw ddylanwad ar y wers a'r ymchwïl. Ynghyd a'r Astudiaeth Wers, roedd y cyfweiliad gyda'r disgyblion yn llwyddiannus. Roedd hyn yn ffordd da o gasglu credoau a meddyliau y disgyblion am ddefnydd o iaith bositif yn hytrach na chael persbectif athro yn unig. Roedd y canlyniadau yn ddibynadwy oherwydd roedden ni fel cyfweilydd yn ofalus wrth eirio'r cwestiynau oherwydd doedden ni ddim eisïau dylanwadu ar eu hatebion. Ar y llaw arall, nid yw rhai atebion yn hollol ddibynadwy oherwydd, credaf bod rhai yn copïo atebion eu cyd-disgyblion pan nad oeddent yn sicr o'r cwestiwn, ac felly nid yw'r atebion yn hollol ddilys. I ddatrys y broblem yma, byddaf yn cyfweïd â'r disgyblion yn unigol yn hytrach nag mewn grŵp.

Roedd y dull o gasglu data yn llwyddiannus. Roedd cynhyrchu'r cwestiynau o flaen llaw yn ddefnyddiol wrth arsylwi ymddygiad disgyblion ar ôl clywed iaith bositif. Roedd e'n sicrhau ein bod yn ffocysu ar y ffactorau cywir ar gyfer ein hastudiaeth. Ar y llaw arall, oherwydd roedd gennyn ni gwestiynau i ddilyn, efallai wnaethon ni golli nodweddion pwysig a gall wedi bod yn ddefnyddiol i ni. Wrth fynd mewn i arsylwi gyda thafïen gwag, mae'n bosib osgoi cyfyngiad wrth gasglu gwybodaeth (Hopkins, 2008). Felly, os oedd angen ail wneud yr ymchwïl, byddaf yn dilyn rhai cwestiynau ond byddaf yn sicrhau bod mwy o ryddid wrth arsylwi disgyblion a chasglu gwybodaeth. Yn ogystal â'r cwestiynau, roedd y dull o ddefnyddio graddfa i raddio ymddygiad disgyblion wrth ddilyn y cwestiynau yn ddefnyddiol. Roedd e'n ffordd syml a chlir o gasglu gwybodaeth. Roedd y graddfeydd yn ddull defnyddiol o gasglu gwybodaeth oherwydd roedd e'n haws i ddadansoddi a gweld unrhyw

batrymau sydd efallai yn gallu arddangos yn y canlyniadau (McLeod, 2019). Er hyn, gall fod yn gaeedig, hynny yw, dydy e ddim yn cyflwyno llawer o fanyldeb ac felly nid yw rhoi llawer o esboniad am y math o effaith cafodd iaith bositif yr athro ar ymddygiad y disgyblion (Academscope, 2019). Felly, tro nesaf, efallai bydd o werth sicrhau bod mwy o nodiadau yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod gennyn ddigon o fanyldeb am ymddygiad y disgyblion.

Wrth ddadansoddi'r canlyniadau credaf i raddau gallech gyffredinol i'r canlyniadau. gallwch gyffredinol i'r canlyniad yn y ffordd bod pob athro yn wynebu disgyblion heriol sy'n amharu ar y wers, ac felly mae'n bwysig gall athrawon gyfeirio at y canlyniadau i weld bod iaith bositif yn gallu bod yn defnyddiol ym mhob gwers. Er hyn, wrth edrych nôl dros atebion disgyblion yn y cyfweiliad, mae ymddygiad personol yn chwarae rôl o fewn ymateb i iaith bositif. O ganlyniad i hyn, gallwch ddadlau nad ydych yn gallu cyffredinol i'r canlyniadau yn llwyr oherwydd, mae pob disgybl yn wahanol ac felly yn ymateb yn wahanol i amrywiaeth o strategaethau disgyblu.

Argymhellion

Ar ôl cyflawni'r ymchwil byddaf yn gwneud argymhellion yng ngoleuni fy astudiaeth. Dysgais fod iaith bositif yn hollol bwysig o fewn dosbarth ac mae'n teclyn defnyddiol ar gyfer addysgu'n llwyddiannus. Mae defnydd o iaith bositif gan athro yn creu awyrgylch pleserus a gweithgar ar gyfer disgyblion i ddysgu a chyflawni tasgau o safon uchel. Mae defnydd o iaith bositif yn adeiladu perthynas da gyda'r disgyblion lle mae disgyblion yn teimlo y gallent fynd at yr athro am gymorth. Yn ogystal, dysgais pa mor bwysig yw cyfathrebu gyda staff er mwyn gallu cydweithio'n llwyddiannus, a dysgu o'n gilydd er mwyn addasu technegau o addysgu er mwyn cael y gorau allan o'r disgyblion. Ar ôl cyflawni'r ymchwil, sylweddolais pa fath o effaith mae cyfarch disgyblion yn cael ar ymddygiad disgyblion. Mae cyfarch yn creu nawws positif ac yn dangos i'r disgyblion rydych yn barod i'w haddysgu a fydd y wers yn un hwylus.

Bydd y ffactorau yma yn fy helpu i symud ymlaen trwy sicrhau bod positifrwydd yn un o flaenoriaethau'r wers, a bod canmoliaeth a chyfarch yn cyfrannu at greu awyrgylch gweithgar ar gyfer y disgyblion. Os byddaf yn gwneud yr ymchwil eto, byddaf yn edrych ar yr effaith mae iaith bositif yn cael ar ymddygiadau personol disgyblion sy'n tueddu gwrthryfela yn fwy. Efallai, byddai'n werth cynnal yr un astudiaeth gyda disgyblion hŷn yn yr ysgol.

Cyfeiriadau

Academicscope (2019) *What is Likert scale? Advantages and Disadvantages*. Available at: <https://www.academicscope.com/what-is-likert-scale-advantages-and-disadvantages/> [Accessed 15 Feb 2020].

Behavioral Health Works (2019) 'Reinforcement vs. Punishment: How to change behavior', *Behavioral Health Works*. Available at: <https://www.bhwcares.com/reinforcement-punishment/> [Accessed 13 Feb 2020]

Burton, D. and Bartlett, S. (2009) *Key Issues for Education Researchers*. London: SAGE Publications.

Coenders, F. and Verhoef, N. (2018) 'Lesson Study: professional development (PD) for beginning and experienced teachers', *Professional Development in Education*, 45(2), pp. 217-230. DOI: 10.1080/19415257.2018.1430050.

Dabell, J. (2018) 'Low-Level Disruptive Behaviour', *John Dabell. Every Day is a School Day*. Available at: <https://johndabell.com/2018/07/23/low-level-disruptive-behaviour/> [Accessed 12 Feb 2020].

Dr Rogers, B. (2020) 'Diverting away from low-level disruption', *Osiris Educational*. Available at: <https://osiriseducational.co.uk/staffroom/article/diverting-away-from-low-level-disruptions/> [Accessed 13 Feb 2020].

Dr. Dweck, C. (2017) *Mindset. Changing the way you think to fulfil your potential*. London: Robinson.

Dudley, P. (2014) 'Lesson Study: professional learning for our time', *Lesson Study*. Available at: <https://lessonstudy.co.uk/2014/09/lesson-study-professional-learning-for-our-time-read-pete-dudleys-resume-of-the-case-for-lesson-study-made-in-his-new-book-out-on-10-september-which-can-be-ordered-at-httpwww-routledge-comb/> [Accessed 10 Feb 2020]

Dudley, P. (2014) *Lesson Study*. Available at: <https://lessonstudy.co.uk/about-us-pete-dudley/> [Accessed 10 Feb 2020].

Education Support. (2019) *Managing pupil behaviour*. Available at: <https://www.educationsupport.org.uk/resources/life-guides/managing-pupil-behaviour> [Accessed 12 Feb 2020]

Harper, A. (2017) 'Using positive words in classroom can affect student behaviour, build trust', *Education Dive*. Available at: <https://www.educationdive.com/news/using-positive-words-in-classroom-can-affect-student-behavior-build-trust/506362/> [Accessed 13 Feb 2020].

Hopkins, D. (2008) *A Teacher's Guide to Classroom Research* 4th Ed. Berkshire: Open University Press.

McLeod, S. (2018) 'Skinner – Operant Conditioning', *Simply Psychology*. Available at: <https://www.simplypsychology.org/operant-conditioning.html> [Accessed 13 Feb 2020].

McLeod, S. (2019) 'Likert Scale Definition, Examples and Analysis', *Simply Psychology*. Available at: <https://www.simplypsychology.org/likert-scale.html> [Accessed 15 Feb 2020].

Miller, B. (2010) 'Brookfield's Four Lenses: Becoming a Critically Reflective Teacher', *The University of Sydney*. Available at: https://valenciacollege.edu/faculty/development/courses-resources/documents/Brookfield_summary.pdf [Accessed 10 Feb 2020].

Nucaro, A. (2017) 'Positive Words Go a Long Way', *Edutopia*. Available at: <https://www.edutopia.org/article/positive-words-go-long-way> [Accessed 13 Feb 2020].

Ofsted. (2014) *Below the radar: low-level disruption in the country's classrooms*. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/379249/Below_20the_20radar_20-_20low-level_20disruption_20in_20the_20country_E2_80_99s_20classrooms.pdf [Accessed 12 Feb 2020].

Paton, G. (2010) 'Aggressive teachers harm pupils' education, *The Telegraph*, 3rd July. Available at: <https://www.telegraph.co.uk/education/educationnews/7866669/Aggressive-teachers-harm-pupils-education.html> [Accessed 14 Feb 2020].

Pound, L. (2006) *How children learn from Montessori to Vygotsky – educational theories and approaches made easy*. London: Practical Pre-School Books.

Scott, D. (2012) 'Low Level Disruption', *Dave Scott*. Available at: <http://www.dave-stott.co.uk/2012/03/low-level-disruption/> [Accessed 12 Feb 2020].

Wood, P. and Smith, J. (2016) *Educational Research. Taking the Plunge*. Carmarthen: Independent Thinking Press.